

**AMGUEDDFA
CYMRU**

A woman with dark hair tied back, wearing a red turtleneck and a dark cardigan, stands in a museum gallery. She is smiling and looking upwards and to the right, with her hands held out in a gesture of presentation. In front of her is a large, dark, glossy vase. The background features a large abstract painting with vibrant colors and a white grid pattern on the wall. To the right, a white statue is visible on a pedestal.

**ADOLYGIAD BLYNYDDOL
ANNUAL REVIEW
2022-23**

amgueddfa.cymru
museum.wales



Nyddu gwllân yn **Amgueddfa Wlân Cymru**. Roedd Arddangosfa Gobaith i'w gweld tan Chwefror 2023.

Spinning wool at the **National Wool Museum**. The Exhibition of Hope was displayed until February 2023.



Gwnaethon ni weithio gyda Chanolfan India Sefydliad Hindŵaidd Diwylliannol Cymru i gynnal Diwali Mela yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**.

We partnered with the Hindu Cultural Association Wales India Centre to host a Diwali Mela at **St Fagans National Museum of History**.

MAE AMGUEDDFA CYMRU YN PERTHYN I BAWB.

Diolch o galon i bawb sydd wedi ymweld â ni, ein cefnogi ni, neu wedi gweithio gyda ni eleni.

Mae'n wych gweld cynifer o ymwelwyr yn dychwelyd i'n hamgueddfeydd. Gweithiodd ein staff yn galed i sicrhau bod ein teulu o amgueddfeydd ledled Cymru ar agor ac yn ddiogel i groesawu dros 1.3 miliwn o ymwelwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein presenoldeb digidol yn tyfu hefyd, gyda dros 2.3 miliwn o ymweliadau â'n gwefan. Trwy ein rhaglen hybrid i ysgolion, buom yn darparu profiadau dysgu cyffrous ac ystyrlon – yn ddigidol ac yn y cnawd, ar hyd a lled Cymru.

Diolch yn fawr i Roger Lewis a roddodd y gorau i'w rôl fel Llywydd Amgueddfa Cymru ym mis Rhagfyr 2022, ac i David Anderson, wnaeth ymddeol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Mawrth 2023. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r ddau am eu harweiniad, ac yn edrych ymlaen at adeiladu ar eu gwaith caled.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at ein gwaith drwy gydol y flwyddyn. Edrychwch ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o straeon gwych.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi'n fuan!

AMGUEDDFA CYMRU - MUSEUM WALES BELONGS TO EVERYONE.

'Diolch o galon – thank you so much' to everyone who has visited, supported us and worked with us over the last year.

It's fantastic to see so many visitors return to our museums. Our staff worked hard to ensure that our family of museums across Wales were open, safe and welcoming to over 1.3 million visitors last year.

Our digital reach is growing too, with over 2.3 million visits to our website. Our hybrid school programme provided exciting and meaningful digital and face-to-face learning experiences across the whole of Wales.

Diolch yn fawr – thank you to Roger Lewis who stepped down from his role as President of Amgueddfa Cymru in December 2022, and to David Anderson who stepped down as Director General in March 2023. We are grateful for their leadership and guidance and are looking forward to building on their achievements.

This Annual Review highlights our work across the year. Take a look at our website and social media for more fantastic stories.

We look forward to seeing you soon!

2022-23 DIOLCH O GALON

...i bawb sydd wedi ymweld â ni, ein cefnogi ni, neu wedi gweithio gyda ni eleni i'n helpu i ysbrydoli pawb drwy adrodd hanes Cymru.

...to everyone who has visited, supported or worked with us this year, helping us inspire everyone through Wales' story.

1,308,628



Croesawyd dros 1.3 miliwn o ymwelwyr i Amgueddfa Cymru.

Over 1.3 million visitors welcomed to Amgueddfa Cymru.



2,322,184

Dros 2.3 miliwn o ymweliadau â'n gwefan, a 197,431 yn ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol.

Over 2.3 million website visits, and 197,431 social media followers.

5.3

5.3 miliwn o wrthrychau ac atgofion yng nghasgliad cenedlaethol Cymru o gelf, hanes a gwyddoniaeth gaiff ei ddefnyddio i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

5.3 million objects and memories in Wales' national collections of art, history and science used to inspire future generations.

227

Mae pobl mewn 227 lleoliad ar draws y byd wedi ymweld â'n gwefan.

People in 227 locations across the world have visited our website.

57%

Bellach mae 57% o'n gweithlu yn medru rhywfaint o Gymraeg, gan gynnwys 26% sy'n rhugl.

57% of our workforce have Welsh language skills, including 26% who are fluent.

20
22

Mae eitemau o'n casgliadau wedi'u benthg i leoliadau a sefydliadau yn 20 o 22 awdurdod lleol Cymru.

Our collections have been loaned to venues and organisations in 20 of the 22 local authority areas in Wales.

1.8% Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae'r bwlch ar ei lefel isaf ers i ni ddechrau adrodd arno yn 2017.

1.8% Gender Pay Gap. This is the lowest it has been since first reporting in 2017.



1.8%

30,000

Mae dros 30,000 delwedd o weithiau celf o'r Casgliad Celf Gyfoes ar gael i'w gweld ar celfarycyd.cymru

Over 30,000 images of artworks from the National Contemporary Art Collection are now available at celfarycyd.wales



214,902

214,902 o blant a phobl ifanc yn ymwneud â'n rhaglen addysg mewn ysgolion.

214,902 children and young people engaged with our school-based learning programme.

Diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Paul Hamlyn, Chwaraewyr y People's Postcode Lottery, Cronfa Gymunedol y Loteri a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhoddion gan ein hymwelwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau, noddwyr, cefnogwyr unigol a busnesau corfforaethol am gefnogi ein gwaith. Diolch i bawb sydd wedi gwario yn ein caffis, siopau, arddangosfeydd a phrofiadau – mae eich cyfraniad chi yn helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb.

'Diolch' to National Lottery Heritage Fund, Paul Hamlyn Foundation, the players of People's Postcode Lottery, National Lottery Community Fund and the Welsh Government, as well as donations and gifts from our visitors, trusts and foundations, patrons and individual supporters and corporate businesses for supporting our work. 'Diolch' to everyone who purchased in our cafes, shops, exhibitions and experiences – your contribution helps ensure that Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to use.

321

321 aelod o'n staff wedi cwblhau ein hyfforddiant llythrennedd carbon dwyieithog hyd yma.

321 members of staff have completed our bilingual carbon literacy action training so far.



ARIAN SILVER

Mae gennym achrediad arian gan y Sefydliad Llythrennedd Carbon.

We are a silver accredited Carbon Literate Organisation.



39

39 project ymchwil ym meysydd celf, hanes a gwyddoniaeth.

39 research projects covering art, history and science.



Disgyblion yn dysgu am fywyd bob dydd milwr Rhufeinig yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.**

Learners find out about life as a Roman soldier at **National Roman Legion Museum.**



Golygfa dros **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.**

Looking out over **Big Pit National Coal Museum.**

Rydyn ni'n elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, sydd oll wedi'u lleoli ar draws Cymru.

Mae ein croeso am ddim diolch i nawdd Llywodraeth Cymru ac rydyn ni yma i bawb o bob cymuned.


Ond rydyn ni'n fwy nag adeiladau yn unig. Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol pwysig sy'n ymestyn tu hwnt i'w milltir sgwâr.

Amgueddfa Cymru is a charity, and a family of seven national museums and one collections centre located across Wales.

Our welcome is free, thanks to funding from the Welsh Government and extends to people from all communities.

But we're more than our buildings. Our museums are vital community spaces that reach far beyond their location on a map.

- 1 **Amgueddfa Lechi Cymru**
National Slate Museum
- 2 **Amgueddfa Wlân Cymru**
National Wool Museum
- 3 **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
National Waterfront Museum
- 4 **Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol**
National Collections Centre
- 5 **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**
St Fagans National Museum of History
- 6 **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
National Museum Cardiff
- 7 **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**
National Roman Legion Museum
- 8 **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**
Big Pit National Coal Museum



Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb. Dewch i fod yn rhan o stori Cymru: drwy wirfoddoli, ymuno neu gyfrannu heddiw.



Amgueddfa Cymru belongs to everyone. Play your part in Wales' story: by volunteering, joining or donating today.

STRATEGAETH 2030 STRATEGY 2030



Amgueddfa Cymru yn cymryd rhan yn Pride Cymru.

Amgueddfa Cymru takes part in Pride Cymru.



Sgiliau traddodiadol yn **Amgueddfa Lechi Cymru**. Y llynedd, bu Amgueddfa Lechi Cymru yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed gyda digwyddiadau a gweithgareddau i arddangos hanner canrif o hanes!

Traditional skills at **National Slate Museum**. Last year the National Slate Museum celebrated its 50th birthday with events and activities to showcase half a century of history!

Dyma ein chwe addewid tan 2030.

Byddwn yn gweithio â phobl a chymunedau dros Gymru, drwy gasgliadau, rhaglenni cyhoeddus a phartneriaethau, i wneud y canlynol:

Here are our six commitments until 2030.

We'll work with people and communities across Wales, through collections, public programmes and partnerships, to:

Cynrychioli pawb



Make sure that everyone is represented

Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes



Inspire creativity and learning for life

Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd



Help protect and restore nature and our environment

Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli



Support well-being through inspirational spaces and experiences

Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol



Discover and explore the museum digitally

Creu cysylltiadau ar draws y byd



Build global connections



Mae Ail-fframio Picton yn cael ei arddangos yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** tan Ionawr 2025.

Reframing Picton at **National Museum Cardiff** runs to January 2025.



Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a weithiodd ar yr arddangosfa *Trawsnewid* yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**.

Amgueddfa Cymru Producers who worked on the *Trawsnewid* exhibition at the **National Waterfront Museum**.

LE I BAWB

Rydyn ni'n gweithio gyda phobl a chymunedau dros Gymru er mwyn eu cynrychioli a chynnwys eu lleisiau yn ein gwaith a'n casgliadau.

Er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddad-drefedigaethu ein casgliadau, rydyn ni wedi sefydlu saith project ymchwil gyda chymunedau amrywiol dros Gymru. Agoron ni arddangosfa *Ail-fframio Picton*, ac rydyn ni wedi arddangos set o brintiau gan yr artist Chris Ofili yn arddangosfa *Rheolau Celf?* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Agorodd sawl arddangosiad newydd i ddathlu hanes a chreadigrwydd LHDTC+, gan gynnwys *Trawsnewid* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a *Cymru... Balchder* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, a buom yn cefnogi digwyddiadau Pride.

Mae Amgueddfa Cymru wrthi'n casglu gwrthrychau newydd i gofnodi ac adrodd hanes cyfoethog LHDTC+ Cymru, gan gynnwys arddangosiad prydferth newydd o ffotograffau a roddwyd gan Mike Parker.

Cynigiodd project Celf ar y Cyd gyfle i bobl yng Nghymru bleidleisio dros eu hoff weithiau celf i gael eu harddangos mewn arddangosfa deithiol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Y Gaer, Aberhonddu ac Oriol Môn, Llangefni. Mae'r gweithiau celf hyn yn adlewyrchu amrywiaeth, creadigrwydd a phrofiad cyfoethog bywyd yng Nghymru. Bydd cyfle olaf i weld yr arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yr haf hwn.

FOR EVERYONE



We're working with people and communities across Wales to include their voices and representation in our work and collections.

To help support decolonising our collections we have set up seven community research projects with diverse communities across Wales. We opened the *Reframing Picton* exhibition, and also displayed a new set of prints by artist Chris Ofili as part of the *Rules of Art?* exhibition at National Museum Cardiff.

Several new displays opened to celebrate LGBTQ+ histories and creativity, including *Trawsnewid* at National Waterfront Museum and *Wales is... Proud* at St Fagans National Museum of History, we also supported Pride festivals. Amgueddfa Cymru is actively collecting new objects to help document and tell the story of Wales' rich LGBTQ+ history, including a beautiful display of photographs donated by Mike Parker.

The Celf ar y Cyd project invited people in Wales to vote for their favourite artworks to go on tour to Aberystwyth Arts Centre, Y Gaer, Brecon and Oriol Môn, Llangefni. These artworks reflect the rich diversity, creativity and experience of life in Wales. The exhibition will be on display at National Museum Cardiff this summer.



Swyddog Addysg yn cynnal gweithdy rhithwir ar gyfer ysgol o **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**.

Learning officer delivering a virtual workshop to a school from **Big Pit National Coal Museum**.

DYSGU A CHREU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cynnal rhaglen gyffrous ac amrywiol o weithgareddau i ddysgwyr o bob oed.

Rydyn ni wedi cefnogi athrawon ac ysgolion i gyflawni'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, ac wedi ymgysylltu â thros 214,000 o ddysgwyr yn ddigidol ac wyneb yn wyneb ar draws ein hamgueddfeydd.

Rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a chreu cyfleoedd newydd gyda'n fforwm ieuentid a rhaglen Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, diolch i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Gweithion ni hefyd â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, gan ymgysylltu â thros 16,000 o blant a phobl ifanc yn rhan o Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru.

Roedd uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys agor arddangosfeydd *BBC 100 yng Nghymru a Lleisiau'r Wal Goch*, yn ogystal â chroesawu ein digwyddiadau yn y cnawd yn ôl, megis yr Ŵyl Fwyd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Dewch i ymuno â ni eto ym mis Medi eleni!

Derbynion ni achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr am y trydydd tro! Diolch o galon i'n gwirfoddolwyr sy'n cefnogi ein hamgueddfeydd mewn cymaint o ffyrdd.

LEARN AND CREATE



Over the last year we've run an exciting and diverse programme of activities for learners of all ages.

Teachers and schools have been supported to deliver the new curriculum for Wales, and we reached over 214,000 learners digitally and in-person across all our museums.

We're supporting young people to develop skills and create new opportunities, with our youth forum and Amgueddfa Cymru Producers programme thanks to National Lottery Heritage Fund. We also collaborated with the Federation of Museum and Art Galleries of Wales engaging over 16,000 children and young people as part of the Welsh Government's Summer of Fun.

Opening the *BBC 100 in Wales* and the *Voices of the Red Wall* exhibitions were highlights, as was celebrating the return of our in-person events, including the Food Festival at St Fagans National Museum of History. Make sure you join us this September!

We were also awarded Investors in Volunteering for the third time! *Diolch o galon* to our volunteers who support our museums in so many ways.



Disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiwn diwrnod golchi yn **Amgueddfa Lechi Cymru**.

Learners taking part in a washday session at the **National Slate Museum**.



Noson Swper o'r Ardd Graft yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**. Mae Graft yn project bwyd a garddio cymunedol arobryn.

Graft Supper night at **National Waterfront Museum**. Graft is an award-winning community gardening and food project.

© VivCollisPhotography

GWARCHOD EIN PLANED

Rydyn ni wedi ymrwymo i warchod y blaned, o'r ffordd rydyn ni'n gofalu am ein hadeiladau i sut rydyn ni'n cefnogi staff ac ymwelwyr i fyw bywydau mwy cynaliadwy.

Mae pedwar project sylweddol ar y gweill ar draws ein hamgueddfeydd i wella effeithlonrwydd ynni, diolch i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a thrwy gydweithio'n agos â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni wedi derbyn achrediad Sefydliad Carbon Llythrennog lefel Arian, gyda thros 321 aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn llythrennedd carbon. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n galed i aildefnyddio eitemau a lleihau gwastraff ar draws y sefydliad.

Er mwyn helpu pobl i archwilio'r amgylchedd, datblygon ni arddangosfa *Ar Eich Stepen Drws* ar y cyd ag Oriel y Parc, Tyddewi, gan greu Taflenni Sylwi i annog pobl i archwilio natur leol. Gallwch chi lawrlwytho'r rhain o'n gwefan. Mae project Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion yn blodeuo bob blwyddyn, gyda 175 o ysgolion yn archwilio i effaith newid hinsawdd mewn modd diddorol a chreadigol.

PUT THE PLANET FIRST



We're committed to caring for the planet, from how we look after our buildings to how we can support staff and visitors to live more sustainably.

Four major projects are under way across our museums to help improve energy efficiency, which has been made possible through additional finance from Welsh Government and through close collaboration with the Welsh Government Energy Service.

We've been awarded Silver as a Carbon Literate Organisation, with over 321 staff trained in carbon literacy. We're also working hard to reuse and reduce waste across the organisation.

To help people explore the environment we developed the *On Your Doorstep* exhibition in partnership with Oriel y Parc, St Davids, and produced Spotter Guides to help explore local nature. You can download these from our website. The Spring Bulbs for Schools project is blooming year on year with 175 schools investigating the impact of climate change in an engaging and creative way.



Enillwyr Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion Cymru yn ymweld â **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** ar gyfer Helfa Drychfilod Feddylgar.

The Spring Bulbs for Schools winners for Wales visiting **St Fagans National Museum of History** for a Mindful Bug Hunt.



“Mae gweld pethau mewn amgueddfeydd, fel y tai teras yn Sain Ffagan, yn ysgogi teimladau ysgubol sydd ddim ond i’w cael wrth gyffwrdd a gweld pethau go iawn – fel yr atgofion o fy mam-gu a’r tad-cu. Mae amgueddfeydd yn llefydd mor bwysig i bobl sydd â dementia. Maen nhw’n llefydd gwych a llethol ar yr un pryd.”

Cyfrannydd, ymgynghoriad Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion.

“There are feelings and emotions I get from seeing things in museums, like the terraced houses here at St Fagans. There is an overwhelming feeling you only get when you can physically touch or see real life things – like the memories of my grandparents that come back. Museums are so important for people with dementia. They are wonderful places and overwhelming at the same time.”

Participant, Museums Inspiring Memories consultation.



“Peth gwych i’w weld, wrth ddatlu Wythnos Ffoaduriaid, yn ein Dinas a’n Cenedl Noddfa.”

Adborth am ein arddangosfa Cartref oddi Cartref.

“Amazing to see this, in celebration of Refugee Week, in our City and Nation of Sanctuary”

Feedback about Home Away from Home exhibition.



“Roedd cael cynrychioli fy nghymuned (Tre-biwt) mewn modd positif yn anrhydedd fawr, ac rwy’n arbennig o ddiolchgar. Roedd gweithio ar arddangosfa BBC 100 yn brofiad bythgofiadwy, ac rwy mor falch o’n holl waith!”

Cynhyrchydd Amgueddfa Cymru.

“Being allowed to represent my community (Butetown) in a positive manner was a great privilege that I cannot be more grateful for. Working on the BBC 100 exhibition was an unforgettable experience and I am so proud of everything we produced!”

Amgueddfa Cymru Producer.



“Mae Sgrinwyna wedi dod yn symbol o’r gwanwyn yn ein tŷ ni – rydyn ni’n sôn amdano wrth ffrindiau o bob cwr o’r byd. Daliwch ati â’r gwaith gwych!”

Gwylwr Sgrinwyna, ar-lein.

“This has become the real harbinger of spring in our house - we absolutely love it and have shared with friends all over the world - keep up the lovely work, lambing team.”

Lambcam viewer, online.



Rhoddodd arddangosfa BBC 100 yng Nghymru sylw i ganrif o hanes y BBC yng Nghymru yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**.

BBC 100 in Wales highlighted 100 years of the history of the BBC in Wales at **National Museum Cardiff**.



“Gobeithiwn y bydd yr arddangosfa hon yn annog ymwelwyr o bob cefndir i wrando a dysgu o’r gorffennol, a rhoi’r gwersi hynny ar waith heddiw.”

Tim project Ail-fframio Picton.

“We hope that this exhibition will encourage visitors of all backgrounds to listen and learn from the past, and to put these learnings into practice today.”

The Reframing Picton project team.



“Diolch – mae’r nawdd hwn yn gwneud cymaint o wahaniaeth i blant a theuluoedd sy’n cymryd rhan, ond hefyd i safle’r amgueddfa fel lleoliad diwylliannol sydd yno AR GYFER plant a phobl ifanc.”

Partner, Haf o Hwyl.

“Thank you – I can’t emphasise enough how much difference this funding has made to not only the children and families who participate, but also to the positioning of the museum as a cultural venue that is FOR children and young people.”

Partner, Summer of Fun.



Croesawodd Amgueddfa Cymru beirianau Melin Teifi i'r casgliad yn **Amgueddfa Wlân Cymru**. Yn y llun mae Raymond Jones, cyn-berchennog Melin Teifi, yn hyfforddi un o'n Crefftwyr.

We welcomed the acquisition of Melin Teifi's machinery at the **National Wool Museum**. Here you see Raymond Jones, retired owner of Melin Teifi commercial mill, training one of our Craftspersons.



Cymryd rhan yn Wythnos Gweithredu ar Dementia yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**.

Taking part in Dementia Action Week at **Big Pit National Coal Museum**.

CEFNOGI LLES

Er mwyn cefnogi lles a gwella mynediad, rydyn ni wedi bod yn gwneud gwelliannau i'n hadeiladau a chynnig gweithgareddau ar gyfer pobl sydd ag anghenion amrywiol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu profiadau ystyrlon ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Gwnaethon ni lansio'r project Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru. Diolch yn fawr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth.

Gwnaethon ni barhau i ddatblygu'r project Cysur mewn Casglu a'r adnodd digidol House of Memories Cymru. Rydyn ni bellach yn cynnig profiadau dementia-gyfeillgar ledled ein safleoedd, gan gynnwys y teithiau tanddaearol yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, gweithdai'r Caban yn Amgueddfa Lechi Cymru a'r Dawnsfeydd Amser Te yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Rydyn ni'n gobeithio eich bod wedi gweld ac wedi defnyddio ein llwybr hygyrch newydd sbon yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, sydd yn ei gwneud hi'n llawer haws i fynd mewn i'r adeilad.

Er mwyn parhau i roi croeso cynnes a phrofiad hygyrch ym mhob un o'n hamgueddfeydd, mae ein staff yn adeiladu ar eu sgiliau Rhagoriaeth Ymwelwyr, ac mae un ym mhob pump o'n staff profiad ymwelwyr wedi cwblhau hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain bellach.

SUPPORT WELL-BEING



To support well-being and increase access we've been making improvements to our buildings and offering activities for people with diverse needs.

We're committed to providing meaningful experiences for people living with dementia. We launched the Museum Inspiring Memories project with Alzheimer's Society Cymru. A big Diolch to National Lottery Community Fund for their support.

We continued to develop the Objects of Comfort project and the development of the House of Memories Wales digital resource. Across our sites we now offer Dementia Friendly experiences including the underground tours at Big Pit National Coal Museum, Caban workshops at National Slate Museum and Tea Dances at the National Waterfront Museum.

We hope you have seen and used our brand-new accessible walkway for National Museum Cardiff which has helped to transform the way people access the museum.

To continue to provide a warm welcome and accessible experience at all our museums our staff are building on their skills in Visitor Excellence, and one fifth of our visitor experience staff have now completed training in British Sign Language.



Digitising collections. Cyfranogwyr gweithdy **Hawliau a Defodau** yn rhannu eu hatgofion ac arbenigedd ar ffyrdd traddodiadol o ddefnyddio planhigion.

Digitising collections. **Rights and Rites** workshop participants share their memories and expertise on traditional uses of plant products.

© Kalpana Tagore

CREU PROFIADAU DIGIDOL

Mae profiadau digidol yn helpu i roi mwy o fynediad at ein casgliadau a gofodau nag erioed.

Rydyn ni wedi datblygu ein rhwydweithiau digidol, cyfrifiaduron a chyfleusterau storio eleni i'w gwneud yn haws i bawb gael mynediad at ein gwasanaethau a chael gwybodaeth amdanynt.

Rydyn ni hefyd yn gweithio i ddigideiddio ein casgliadau fel eu bod ar gael ar-lein i bobl gael mynediad atynt ym mhob man. Mae cyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau wedi ein helpu i brynu offer i gefnogi'r gwaith hwn ac uwchraddio ein ffotograffiaeth sganio 3D.

Mae ein digwyddiadau digidol wedi parhau i fod yn boblogaidd. Gwnaethon ni ddatblygu digwyddiad digidol newydd Amgueddfa Dros Nos: Y Rhufeiniaid Gartref yn 2022, sydd bellach yn rhan o bedwar gwahanol ddigwyddiad ar-lein Amgueddfa Dros Nos.

Yn olaf, gwnaethon ni ail-lansio'r profiad realiti rhithwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, lle gall ymwelwyr blymio i foroedd Jwrasig a cherdded gyda deinosoriaid.

CREATE DIGITAL EXPERIENCES



Digital experiences are helping to provide more access to our collections and spaces than ever before.

We've developed our digital networks, computers and storage this year so that we can make it easier for everyone to access and find out about our services.

We're also working on digitising our collections so that they can be available online for people everywhere to access. Funding from the Art & Humanities Research Council has helped us purchase equipment to support this work and upgrade our 3D scanning photography.

Our digital events have continued to prove popular. We developed a new Roman sleepover digital event in 2022, which is now part of four different Sleepover@Home online events.

Finally, we re-launched the virtual reality experience at National Museum Cardiff, where visitors can dive into Jurassic seas and walk with dinosaurs.



Gwaith cadwraeth ar *Bortread o Monsieur Jules Dejoux* gan Édouard Manet, sydd bellach yn cael ei arddangos yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** tan fis Ionawr 2025.

Conservation of *Édouard Manet's Portrait of Monsieur Jules Dejoux*, now on display until January 2025 at **National Museum Cardiff**.

AR DRAWS Y BYD

Croeso mawr i bawb sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd a'n gwefan – o Gymru a'r byd.

Rydyn ni'n adeiladu cyberthnasau hirdymor gydag amgueddfeydd ledled y byd, gan gynnwys project ymchwil cydweithredol gydag Amgueddfeydd Iziko yn Ne Affrica, ac adferiad *Portread o Monsieur Jules Dejoux* (1879) gan Édouard Manet (1832-1883). Diolch i Gronfa Adfer Amgueddfa TEFAF, Sefydliad Finnis Scott a Chyfeillion Amgueddfa Cymru.

Rydyn ni wedi benthg 11 o eitemau i 7 o wahanol wledydd ar gyfer arddangosfeydd ac ymchwil parhaus, a 40 o fenthyciadau ymchwil rhyngwladol.

Yn ystod yr haf y llynedd, daethom â chynrychiolwyr o wledydd Celtaidd ac America Ladin at ei gilydd i drafod sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau enfawr mae ein cymdeithas yn eu hwynebu.

Yn olaf, buom yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2023 gyda'n digwyddiad Wythnos Cymru Llundain mewn partneriaeth â Chymdeithas Pêl-droed Cymru, BBC Cymru, a Llywodraeth Cymru, i drafod sut y daw chwaraeon a diwylliant at ei gilydd i ddathlu Cymru fodern.

ACROSS THE WORLD



A huge 'Croeso – Welcome' to visitors to our museums and website from Wales and across the world.

We're building long-lasting relationships with museums across the world, including a collaborative research project with Iziko Museums of South Africa, and the restoration of Édouard Manet's (1832-1883) *Portrait of Monsieur Jules Dejoux* (1879). Thanks to the TEFAF Museum Restoration Fund, The Finnis Scott Foundation and the Friends of National Museum Wales.

We had 11 object loans which went to 7 different countries for exhibitions and on-going research, and 40 international research loans.

Last summer we brought together representatives from Celtic nations and Latin America to discuss how we can address the urgent challenges faced by society.

Finally, we kicked off our 2023 *Dydd Gŵyl Dewi* celebrations with our Wales Week London event in partnership with Football Association Wales, BBC Wales, and the Welsh Government, to discuss how sports and culture came together to celebrate modern Wales.



Gwaith cadwraeth ar eitemau yn y **Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol.**

Conservation of objects at the **National Collections Centre.**



Bwyell o'r Oes Efydd. Mae'r **Cynllun Henebion Cludadwy** yng Nghymru yn adnabod a chofnodi gwrthrychau archeolegol a ganfuwyd gan aelodau'r cyhoedd.

Bronze Age axe. The **Portable Antiquities Scheme** Wales identifies and records archaeological artefacts found by members of the public.

GWIREDDU EIN HADDEWIDION

Mae llawer o waith yn digwydd y tu ôl i'r llenni i ofalu am y casgliadau cenedlaethol a darparu gofodau croesawgar a hygyrch. Mae ein hamgueddfeydd yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y prif restrau o amgueddfeydd ledled y DU. Diolch i bawb sy'n pleidleisio drosom ni.

Mae Strategaeth 2030 yn rhan o bopeth a wnawn – o sicrhau bod ein casgliadau yn ddiogel ac yn berthnasol i Gymry yfory, i gefnogi'r Gymraeg a'n diwylliant, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Rydyn ni'n gwneud pethau'n haws i bobl o gefndiroedd amrywiol weithio gyda ni drwy wella ein prosesau recriwtio, ac mae ein bwch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf ers i ni ddechrau adrodd arno yn 2017.

Gwnaethon ni ail-lansio ein rhaglen Cymrodorion Ymchwil Anrhydeddus, gan groesawu 35 o gymrodorion o amrywiaeth o ddisgyblaethau a chefnidiroedd, ac ar gamau gwahanol yn eu gyrfaedd ymchwil. Byddwn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer 14 o ysgoloriaethau ymchwil PhD dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, gan gynnwys ein brand a'r ffordd rydyn ni'n cyflwyno ein gwerthoedd a'n gwaith i'r byd. Mae gan lawer o'n staff sgiliau Cymraeg felly mae croeso i chi ddechrau sgwrs gyda ni yn ystod eich ymweliad nesaf.

DELIVERING OUR COMMITMENTS

A huge amount of work goes on behind the scenes to care for the national collections and provide welcoming and accessible spaces. Our museums regularly feature in the top lists of museums across the UK. 'Diolch - thank you' to everyone who votes for us.

Strategy 2030 is part of everything we do, from how our collections are cared for and relevant for future generations, to how we support our Welsh language and shared culture, and the Well-being of Future Generations (Wales) Act.

We're making things easier for people to work with us from diverse backgrounds by improving our recruitment processes, and our gender pay gap is the lowest it has been since first reporting in 2017.

We re-launched our Honorary Research Fellows programme, welcoming 35 fellows from across a range of disciplines and backgrounds, and at different stages in their research careers. We will be offering opportunities over the next year for 14 new PhD studentships.

The Welsh language is embedded in everything we do, including our brand and the way we present our values and work to the world. Many of our staff have Welsh language skills so feel free to start a conversation with us on your next visit.



©Laurie Broughton

Mae gwefan **Celf ar y Cyd** yn gwneud casgliad celf gyfoes y genedl yn fwy hygyrch nag erioed.

The **Celf ar y Cyd** website makes the nation's contemporary art collection more accessible than ever before.

AR Y GWEILL YN 2023...

Mae yna lawer i edrych ymlaen ato yn Amgueddfa Cymru dros y flwyddyn nesaf, o arddangosfeydd a digwyddiadau i brojectau a phrofiadau newydd.

Rydyn ni'n dathlu ambell i ben-blwydd mawr yn 2023. Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn 75 oed a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn 40 oed! Beth am ddod draw i weld sut maent wedi cael eu trawsnewid i fod yn rhai o amgueddfeydd mwyaf blaenllaw y DU. Mae'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol hefyd yn dathlu 25 mlynedd o ofalu am filoedd o eitemau o'r casgliad cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn cydweithio ar y rhaglen *Safbwyntiau/Perspectives* mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a saith sefydliad ym maes y celfyddydau gweledol ledled Cymru i fyfyrio ar, a chydabod, safbwyntiau, profiadau a hanesion cymunedau amrywiol eu diwylliant a'u hethnigrwydd, ddoe a heddiw.

Fel elusen, rydyn ni'n dibynnu ar roddion a chyllid i gefnogi ehangder ein gwaith a chyflawni projectau newydd a chyffrous. Mae rhoddion ac unrhyw beth a brynwch, bach neu fawr, yn helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb. Dysgwch ragor am y ffyrdd y gallwch chi hefyd gefnogi ein gwaith.

COMING UP IN 2023...

There is lots to look forward to over the next year at Amgueddfa Cymru, from exhibitions and events to new projects and experiences.

We celebrate some big birthdays for Amgueddfa Cymru in 2023. St Fagans National Museum of History is 75 and Big Pit National Coal Museum is 40! Why not visit to find out how they have transformed into some of the UK's leading museums. The National Collections Centre also celebrates 25 years of caring for thousands of items from the national collection.

We'll also be collaborating on the *Safbwyntiau/Perspectives* programme in partnership with Arts Council of Wales and seven visual arts organisations across Wales to reflect and acknowledge the perspectives, experiences, and stories of culturally and ethnically diverse communities, past and present.

As a charity, we rely on donations and funding to support the breadth of our work and deliver new and exciting projects. Donations and purchases, small or large, help ensure Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to use.



Dawn Bowden AS Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ymweld â **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru** i ddathlu 40 mlynedd ers ei hagar.

Dawn Bowden MS Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism visiting **Big Pit National Coal Museum** to celebrate its 40th birthday.



Arddangosfa Geiriau Diflanedig yn **Oriel y Parc, Tyddewi.**

The Lost Words Exhibition at **Oriel y Parc, St Davids.**



Yr Wyl Fwyd fawr yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.**

The big Food Festival event at **St Fagans National Museum of History.**

EICH STORI, EICH AMGUEDDFA

Dyma ambell ddigwyddiad ac arddangosfa sydd i ddod dros y misoedd nesaf...

Stondin Amgueddfa Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, **Boduan, Gwynedd** o 5 tan 12 Awst 2023

Arddangosfa *Artes Mundi 10* o 20 Hydref 2023 – 25 Chwefror 2024 yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**

Ein Gŵyl Fwyd fawr, 9 a 10 Medi 2023 yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**

Arddangosfa *Camlas Abertawe 225* tan 17 Medi 2023 yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe**

Arddangosfa *O Bwll i Amgueddfa* tan 1 Medi 2023 yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**

Arddangosfa *Llechi: Golwg Gwahanol!* tan 31 Rhagfyr 2023 yn **Amgueddfa Lechi Cymru**

Digwyddiadau *Teuluoedd yn y Gaer a Gladiatoriaid* yn ystod mis Awst 2023 (manylion ar ein gwefan) yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

Stori a Chân ym mis Awst 2023 (manylion ar ein gwefan) yn **Amgueddfa Wlân Cymru**

Arddangosfa *Geiriau Diflanedig* mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru tan y gwanwyn 2024 yn **Oriel y Parc, Tyddewi a'r Ysgwrn, Eryri**

Sylwer y gallai dyddiadau newid. Edrychwch ar ein gwefan cyn ymweld.

YOUR STORY YOUR MUSEUM

Here are a few events and exhibitions to look out for later in 2023...

Amgueddfa Cymru's stand at the National Eisteddfod in **Boduan, Gwynedd** from 5 to 12 August 2023

Artes Mundi 10 exhibition from 20 October 2023 – 25 February 2024 at **National Museum Cardiff**

The big Food Festival event. 9 and 10 September 2023 at **St Fagans National Museum of History**

Swansea Canal 225 exhibition from 17 September 2023 at **National Waterfront Museum Swansea**

From Mine to Museum exhibition until 1 September 2023 at **Big Pit National Coal Museum**

Slate: A Different View! exhibition on now until 31 December 2023 at **National Slate Museum**

Family life in the Fortress and Gladiators events on selected dates in August 2023 (check website for details) at **National Roman Legion Museum**

Welsh Story and Rhyme on selected dates in August 2023 (check website for details) at **National Wool Museum**

The Lost Words exhibition in partnership with Amgueddfa Cymru on display until spring 2024 at **Oriel y Parc, St Davids, and Yr Ysgwrn, Eryri**

Please note that dates may change. See our website for details before you visit.



Adeiladu cuddfan gartref fel rhan o ddigwyddiad ar-lein **Amgueddfa Dros Nos: Y Rhufeiniaid Gartref.**

Building a den at home as part of the **Roman Sleepover@home** online event.




Gweithgareddau Haf o Hwyl yn **Amgueddfa Lechi Cymru.**

Summer of Fun activities at **National Slate Museum.**



Mae arddangosfa *Lleisiau'r Wal Goch* yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** yn dathlu cefnogwyr pêl-droed Cymru a Chymru'n sicrhau lle yng Nghwpan y Byd FIFA.

The *Voices of the Red Wall* exhibition at **St Fagans National Museum of History** shines a spotlight on Welsh football fans and Cymru qualifying for the FIFA World Cup.



Clawr blaen:
Krystal Lowe, Dawnswraig, Curadur Cymunedol ar gyfer y project *Celf ar y Cyd*, rhan o'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru ehangach a noddir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
©Laurie Broughton

Front Cover:
Krystal Lowe, Dancer, Community Curator for *Celf ar y Cyd* project, part of the wider Welsh Government sponsored National Contemporary Art Gallery for Wales in partnership with Arts Council Wales and the National Library of Wales.
©Laurie Broughton

AMGUEDDFA CYMRU



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhif elusen: 525774
Charity number: 525774